

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

22 Hydref, 2020

Annwyl Rieni/Ofalawr,

PECYNNAU DYSGU - Bydd eich plentyn heddiw wedi derbyn pecynnau dysgu. Mae'r pecynnau hyn wedi ei chreu er mwyn cefnogi eich plentyn gyda gwaith ysgol os fyddai sefyllfa yn codi ble byddai angen i'ch plentyn aros adref i hunan ynysu. Drwy dderbyn y pecynnau heddiw, bydd yn helpu yn y trefniadau pan fydd eich plentyn yn derbyn cyfnod byr o rybudd o ran peidio dod i'r ysgol. Felly bydd yr adnoddau yn barod ar gael i'ch plentyn ac yn hwyluso'r broses o newid o ddysgu yn yr ysgol i adref. Dylai'r taflenni a'r gweithgareddau o fewn y pecynnau, yn ogystal â mynediad eich plentyn i weithgareddau fydd hefyd wedi ei threfnu gan yr athrawon dosbarth drwy gyfrif HWB eich plentyn gan ddefnyddio 'Google Classrooms', yn sicrhau fod digon o weithgareddau a thasgau ar gael i'ch plentyn, boed drwy fynediad i gyfrifiadur neu ddim. Hoffwn bwysleisio fod y pecynnau wedi ei pharatoi ar gyfer defnyddio mewn sefyllfa ble mae angen hunan ynysu. Dylech felly gadw'r pecynnau hyd nes y bydd sefyllfa fel hyn yn codi, gan na fyd posib caglu adnoddau ychwanegol o'r ysgol yn ystod cyfnod hunan ynysu.

Dangos Cerdyn Coch i hiliaeth - Hoffwn ddiolch i bob un a gefnogodd yr ymgyrch hon. Drwy wisgo coch ar y dydd, bydd yr ysgol yn cyflwyno siec o £183 tuag at yr achos.

Diolchgarwch - Roedd yn hyfryd i weld cymaint o blant yn dod a chyfraniadau bwyd i'r ysgol ar gyfer ein hymgyrch diolchgarwch. Diolch i bawb. Mae'r bwydydd a dderbyniwyd wedi cael ei rhoi i'r banc bwyd yn y pentref a leolir yng Nghapel Mawr. Bydd y cyfraniadau yn sicr yn help mawr i'r gymuned leol.

Hanner tymor - Bydd yr ysgol yn cau am yr hanner tymor ar ddydd Gwener Hydref 23ain, ac yn ail agor ar ddydd Llun Tachwedd 2ail, ble byddwn yn parhau gyda'r trefniadau dyddiol presennol.

Schoop ac App yr ysgol - Os nad ydych yn barod wedi cofrestru efo Schoop neu gyda mynediad i app yr ysgol, yna a fydddech cystal â sicrhau fod hyn wedi ei wneud, gan na fyddwn yn anfon copïau papur o lythyrau ar ôl yr hanner tymor. Cofiwch fod llythyrau hefyd i'w gweld ar wefan yr ysgol.

Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Diolch. Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel dros yr hanner tymor.

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth